

PDF Argraffu Cyfeirnod

JONES, LEWIS (1702? - 1772), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Lewis Jones
Dyddiad geni: 1702?
Dyddiad marw: 1772
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn rhywle yng Ngheredigion. Bu yn academi Caerfyrddin dan Perrot(t) (Walter J. Evans yn NLW MSS 10327B ; gweler hefyd NLW MS 373C), ond ni nodir y blynyddoedd. Yn ôl llyfr eglwys y Cilgwyn (*Y Cofiadur*, 1923) urddwyd ef yn weinidog Llanedi ym mis Medi 1734. Naturiol yw tybied iddo symud i Ben-y-bont-ar-Ogwr a'r Betws ddiwedd 1739; ond yn *Hanes Eglwys Annibynnol Cymru*, ii, 206, gwthir tymor o weinidogaeth yn y Drewen a'r Llechryd i mewn yn 1739-40. Eithr mewn man arall o'r un llyfr (iv, 167), awgrymir posibilrwydd mwy rhesymol (gan nad oes fwlch rhwng y ddau weinidog David Sais a David Evan yn y Drewen), sef mai dechrau pregethu (yn 18 oed meddai David Williams yr emynydd yn ei farwnad iddo) yn yr eglwys hon a wnaeth Lewis Jones, ac efallai gynorthwyo David Sais, yn ddiurddau, cyn cael ei ordeinio yn Llanedi - nid annaturiol fyddai casglu hefyd mai yn y cylch hwnnw y ganed ef. Bu am flynyddoedd lawer yn llwyddiannus iawn ym Mhen-y-bont. Yr oedd yn bregethwr tanlyd a phoblogaidd, yn Galfin pybyr, ac yn un o'r fintai o Annibynwyr (fel ei gyfaill Edmund Jones, a sonia amdano yn ei lythyrau a'i ddyddlyfrau) a gydweithiai â Howel Harris ar ddechrau'r mudiad Methodistaidd - y mae gennym lythyr ganddo at Harris (T.L., 313, Chwefror 1741, a argraffwyd yn *Y Cofiadur*, 1935, 54). Pregethai ar hyd ac ar led Morgannwg. Ond yn 1763 (*Hanes Eglwys Annibynnol Cymru*, ii, 198) cododd anghydfod rhyngddo a Samuel Price, mab ei ragflaenydd, ac er i weinidogion y cylch geisio cymodi rhyngdynt, ymadawodd â Phen-y-bont - ar Lewis Jones y rhydd dyddlyfr Philip David o Benmain y bai. Y farn gyffredin yw iddo symud i Ross yn sir Henffordd; ond awgryma Walter J. Evans (uchod) y gall mai yn Nyfneint y bu o 1763 hyd 1765, onid yn wir hyd 1768, ac mai oddi yno yr aeth i Ross. Sut bynnag, yn Ross y bu farw, 8 Ionawr 1772, yn 69, meddai carreg ei fedd. Bu'n briod ddwywaith; merch iddo oedd gwraig David Jardine.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

At y ffynonellau uchod, ychwaneger Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdŷr 1867-70)*, ii, 42-5

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733785

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). JONES, LEWIS (1702? - 1772), gweinidog gyda'r Annibynwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-LEW-1702>

CC BY-SA

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government